



# BYDDWCH FENTRUS ENTERPRISING

DECHREUWCH  
EICH...  
**BUSNES, MENTER  
CYMDEITHASOL,  
NEU FYND AMDANI  
FEL GWEITHIWR  
LLAWRYDD**



YDYCH CHI'N **FYFYRIWR** NEU  
WEDI **GRADDIO** AC YN BWRIADU  
DECHRAU EICH **BUSNES** NEU **FENTER**  
**GYMDEITHASOL** EICH HUN?

YDYCH CHI EISIAU DEFNYDDIO'CH  
**SGILIAU** NEU'CH **PROFIAD** I FENTRO  
AR **EICH LIWT EICH HUN?**

**Efallai eich bod chi eisiau  
datblygu eich sgiliau menter a  
bod yn fwy cyflogadwy?**

Nid dim ond dechrau busnes mae bod yn entrepreneuriaidd yn ei olygu. Mae'n golygu chwilio am gyfleoedd, gallu datrys problemau mewn modd creadigol a bod yn rhywun sy'n gweithredu. Mae'r pethau hyn i gyd yn sgiliau y mae cyflogwr yn rhoi gwerth mawr arnynt.



# RYDYM NI YMA I'CH HELP GYDA'R CYFLEOEDD CANLYNOL:

- B** **Mentora** gan weithwyr **proffesiynol** profiadol.
- B** Grantiau **Ileoliad hunangyflogaeth** i'ch helpu i flaenoriaethu eich syniadau  
\*mae meini prawf cymhwyster i'w bodloni
- B** **Cyllid** a **chymorth** i'ch helpu i ddatblygu a chreu prototeip o'ch syniad drwy'r Gronfa Sbarduno Menter
- B** **Gweithdai, gweminarau** a **chyrsgiau** i ennill gwybodaeth a hyder a datblygu rhwydweithiau



- B** **Man deori yn M-SParc**, sef Parc Gwyddoniaeth y Brifysgol ar gyfer y rhai sy'n agos at ddechrau busnes
- B** **Cronfa gefnogi** i helpu gyda **brandio** a **dylunio**
- B** Cyfleoedd **prototeipio** a **phrofi masnachu**
- B** **Cystadlaethau** a **digwyddiadau i ddenu cyllid, ennill cydnabyddiaeth**, a meithrin rhwydweithiau newydd ac i ymarfer eich sgiliau cyflwyno a chyflwyno ceisiadau
- B** **Aelodaeth flynyddol IPSE** yn rhad ac am ddim i'r rhai sydd â diddordeb mewn gweithio ar eu liwt eu hunain (gwerth £99)
- B** **Cefnogaeth ac arweiniad staff** er mwyn cynyddu'r sylw a roddir yn y cwricwlwm i sgiliau menter.

# CYSYLLTWCH Â NI

Mae Byddwch Fentrus yn ymroddedig i gefnogi myfyrwyr a graddedigion Prifysgol Bangor i ddatblygu eu sgiliau menter neu i ddechrau mentrau cymdeithasol neu eu busnesau eu hunain neu i ddechrau ar yrfa yn gweithio ar eich liwt eich hun.

Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at **b-enterprising@bangor.ac.uk**

## CEWCH RAGOR O WYBODAETH AM Y GEFNOGAETH SYDD AR GAEL YMA

[my.bangor.ac.uk/employability-info/](http://my.bangor.ac.uk/employability-info/)  
[b-enterprising.php.cy](http://b-enterprising.php.cy)

   @PBcyflogadwyedd

 Cyflogadwyedd Prifysgol Bangor

